Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

# Gweithred Gyffredinol 4: Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) – Canllawiau ar gyfer Dysgu Allanol 2026

**Mawrth 2026**



# Cyflwyniad

Mae'r SFS yn rhoi pwyslais cryf ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) fel rhan bwysig o sicrhau canlyniadau cynaliadwy ar gyfer amaethyddiaeth Cymru. Gall y dysgu hwnnw gael ei ddarparu gan Cyswllt Ffermio neu gan ddarparwyr gwahanol ac annibynnol.

**Dim ond i'r rheini sy'n dewis cael eu dysgu gan rywun heblaw am Cyswllt Ffermio y mae'r canllaw hwn yn berthnasol.**

Nid oes gan Lywodraeth Cymru broses ar gyfer cymeradwyo nac achredu DPP a ddarperir gan ddarparwyr annibynnol.

Dylai ffermwyr sicrhau bod pob sesiwn ddysgu a roddir iddynt yn bodloni egwyddorion Haen Gyffredinol yr SFS: Canllawiau 2026 i fod yn gymwys fel DPP. Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i helpu i asesu a fydd y dysgu a ddarperir yn bodloni gofynion y cynllun o ran DPP.

Mae'n bwysig nodi **na fydd** digwyddiadau dysgu gan ddarparwyr annibynnol yn cael eu cofnodi'n awtomatig ar Storfa Sgiliau ffermwr ar wefan Cyswllt Ffermio neu Busnes Cymru. Bydd digwyddiadau dysgu Cyswllt Ffermio ar y llaw arall yn cael eu cofnodi'n awtomatig.

Rhaid i ddarparwyr dysgu annibynnol ddarparu tystiolaeth bod y ffermwr wedi bod yn bresennol a rhaid i'r ffermwr gofnodi'r manylion ar ei Ddangosfwrdd Cyffredinol SFS ar RPW Ar-lein erbyn **15 Ionawr.**

Yna **rhaid** cadw'r dystiolaeth hon ar y fferm ar gyfer ei harchwilio am 5 mlynedd.

# Coeden Benderfyniadau DPP

Mae'r goeden benderfyniadau hon wedi'i chynllunio i'ch helpu i weld yn gyflym pa weithgareddau sy'n gymwys ar gyfer UA4: DPP

| | | |
|---|---|---|
| 1. A yw'r gweithgaredd yn berthnasol i un neu fwy o'r amcanion SLM? | Ydy | Nac ydy |
| 2. A oes canlyniadau dysgu pendant i'r gweithgaredd? | Oes | Nac ydy |
| 3. A oes ffordd i brofi bod y dysgu wedi digwydd? | Oes | Nac oes |
| 4. A yw'r dysgu yn cael ei gyflwyno mewn fformat derbyniol? | Ydy | Nac ydy |
| 5. Allwch chi gadarnhau'r canlynol a'i gadw ar gyfer ei archwilio?<br>Teitl y cwrs<br>Dyddiad presenoldeb<br>Oriau dysgu<br>Amcan SLM<br>Y dysgwr | Gall af | Na allaf |

✓ Os yw POB ateb yn GADARNHAOL → Mae'r dysgu yn cyfrif tuag at UA4: DPP

✕ Os NA yw un o'r atebion → NID yw'r dysgu yn cyfrif tuag at UA4: DPP

## Geirfa

### Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Dyma bedwar amcan rheoli tir yn gynaliadwy (SLM). Rhaid i bob digwyddiad neu sesiwn ddysgu ymwneud ag un neu fwy o'r amcanion hyn:

- **cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy**

  *Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd sy'n gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, sy'n hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid ac sy'n diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i wneud yr un fath. Mae'r ffactorau sy'n berthnasol wrth ystyried a yw bwyd a nwyddau eraill yn cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy yn cynnwys ymysg pethau eraill, gwytnwch busnesau amaethyddol o fewn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt a'u cyfraniad i'r economi leol.*

- **lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo**

  *Mae lliniaru'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynnwys lleihau'r newid yn yr hinsawdd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol ac allyriadau corfforedig yn ogystal â chynnal a chynyddu gallu'r tir amaethyddol i ddal ac storio carbon. Mae addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynnwys gweithredu i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.*

- **cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maen nhw'n eu darparu**

  *At ddibenion y trydydd amcan, mae ffactorau sy'n berthnasol i wytnwch ecosystemau yn cynnwys, ymysg pethau eraill, yr amrywiaeth o fewn a rhwng ecosystemau, y cysylltiadau ynddyn nhw a rhyngddyn nhw, eu maint, eu cyflwr (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad), a'u gallu i addasu.*

- **gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a hybu mynediad y cyhoedd iddynt ac ymgysylltiad y cyhoedd â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.**

  *At ddibenion y pedwerydd amcan, mae 'adnoddau diwylliannol' yn cynnwys treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol, ymysg pethau eraill.*

**Canlyniadau dysgu pendant**

Y gallu i ddiffinio pa wybodaeth bydd y cyfranogwr wedi'i dysgu a beth y bydd yn gallu ei wneud yn llwyddiannus ar ôl cwblhau'r gweithgaredd neu fod yn y digwyddiad.

Er enghraifft, "Erbyn diwedd y sesiwn, byddwch yn gallu codi sampl o bridd yn unol ag arfer gorau'r diwydiant ac a'i labelu ar gyfer ei brofi."

**Prawf/tystiolaeth o'r dysgu**

Diffiniad: rhoi cyfle i fesur faint mae'r cyfranogwr yn ei ddeall o'r hyn y mae wedi'i ddysgu

Dyma enghreifftiau o'r ffyrdd i brofi'r hyn rydych wedi'i ddysgu (ymysg pethau eraill):

- Holi Cwestiynau
- Trafod astudiaeth achos
- Asesiad strwythuredig
- Cofnod o ganlyniadau dysgu
- Log ystyriol
- Arddangosiad ymarferol gydag adborth yr hyfforddwr

**Fformatau dysgu derbyniol**

Bydd amrywiaeth o fformatau a lleoliadau dysgu'n dderbyniol, gan gynnwys:

- e-ddysgu
- grwpiau trafod/seminarau/gweithdai
- arddangosiadau ar ffermydd
- hyfforddiant achrededig
- dosbarthiadau meistr
- mentora

Mae sesiynau penodol mewn cynadleddau neu ddigwyddiadau addysgol eraill hefyd yn dderbyniol, ar yr amod eu bod yn ymdrin ag amcan SLM.

**Cadarnhau presenoldeb a chadw tystiolaeth**

Rhaid cadw tystiolaeth, er enghraifft, tystysgrif presenoldeb, llythyr neu gadarnhad o'r digwyddiad, sy'n nodi enw'r darparwr, dyddiad, amser, hyd, enw'r unigolyn sy'n mynychu, a'r amcan SLM a drafodir. Bydd angen cofnodi'r manylion hyn ar Ddangosfwrdd Cyffredinol yr SFS ar RPW Ar-lein **erbyn 15 Ionawr.**

Nid oes gofyn i'r dystiolaeth fod mewn fformet arbennig, cyn belled â'i bod yn cynnwys y manylion uchod.

Rhaid i gyfranogwyr gadw tystiolaeth o unrhyw gyrsiau gan ddarparwyr dysgu allanol y maen nhw wedi'u dilyn a'u cwbhau. Rhaid i'r dystiolaeth fod ar gael ar gyfer ei harchwilio pan ofynnir amdani.

**Gweithgareddau nad ydynt yn cydymffurfio**

Nid yw'r gweithgareddau canlynol yn cael eu derbyn fel DPP at ddibenion UA4.

| Categori | Gweithgareddau a WRTHODIR |
|---|---|
| **Digwyddiadau cymdeithasol, heb elfen o ddysgu** | Sioeau amaethyddol, marchnadoedd, neu ddigwyddiadau **cymdeithasol** neu brynu/gwerthu/barnu da byw.<br><br>Sesiynau rhwydweithio heb ddysgu ffurfiol. |
| **Amser teithio** | Amser a dreulir yn teithio i ac o ddigwyddiad dysgu. |
| **Presenoldeb oddefol neu heb strwythur** | Eistedd mewn cyfarfod neu sesiwn friffio heb amcanion dysgu nag ymgysylltu diffiniedig. |
| **Sesiynau hyrwyddo neu fasnachol** | Stondin werthu neu arddangosfa gynnyrch heb gynnwys addysgol sy'n berthnasol i amcan SLM. |
| **Gweithgareddau heb gysylltiad ag amcanion SLM** | Unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiad nad yw'n cefnogi un neu fwy o amcanion statudol SLM. |

**Enghreifftiau o bynciau dysgu yn ôl amcanion SLM**

Er mwyn eich helpu i ddeall pa bynciau a allai fod yn berthnasol i amcanion SLM ac a allai felly gyfrif fel DPP, rhoddir enghreifftiau isod. Er gwybodaeth yn unig mae'r rhain ac nid yw'n rhestr gynhwysfawr. Efallai y bydd rhai pynciau'n cefnogi mwy nag un amcan SLM.

| Amcan SLM | Enghreifftiau o weithgareddau/pynciau dysgu |
|---|---|
| **Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn ffordd gynaliadwy** | • Cynllunio a pherfformiad busnes fferm fel rhan o system gynhyrchu cynaliadwy<br>• Cynllun rheoli maethynnau a'u gwasgaru'n fanwl-gywir<br>• Rheolaeth integredig ar blâu a defnyddio llai o blaladdwyr<br>• Arferion gorau o ran iechyd a lles anifeiliaid<br>• Defnyddio dŵr yn fwy effeithiol<br>• Arallgyfeirio a datblygu cadwyn gyflenwi gynaliadwy<br>• Lleihau gwastraff bwyd a defnyddio adnoddau'n fwy effeithio<br>• Troi'n organig neu'n adfywiol<br>• Dechrau a datblygu garddwriaeth |

| | |
|---|---|
| **Arafu'r newid yn yr hinsawdd, ac addasu iddo** | • Strategaethau i leihau ôl troed carbon<br>• Arferion i ddal carbon y pridd ac adfywio'r pridd<br>• Systemau isel eu hallyriadau ar gyfer cadw da byw<br>• Cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac arbed ynni ar ffermydd<br>• Asesiad o risg yr hinsawdd a chynllunio i addasu<br>• Amaeth-goedwigaeth a phlannu coed ar gyfer storio carbon<br>• Arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy<br>• Lleihau allyriadau a dal mwy o garbon ar y fferm<br>• Defnyddio dŵr yn effeithlon (gan gynnwys cynaeafu a storio) |
| **Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu** | • Creu ac adfer cynefinoedd (e.e. perthi/gwrychoedd, gwlyptir, coetir)<br>• Gwella bioamrywiaeth a strwythur y pridd<br>• Arferion ffermio sy'n gyfeillgar i bryfed peillio<br>• Gwarchod y dirwedd a chysylltedd<br>• Systemau pori cynaliadwy i ddiogelu cynefinoedd<br>• Ffermio mewn Safleoedd Gwarchodedig<br>• Adnabod cynefinoedd<br>• Creu cynefin lled-naturiol - opsiynau mewn cae |
| **Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, annog mynediad y cyhoedd iddyn nhw ac i ymwneud â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.** | • Rheoli nodweddion hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol ar dir fferm<br>• Cynllunio mynediad i'r cyhoedd<br>• Integreiddio'r Gymraeg mewn hyfforddiant a negeseuon ffermydd<br>• Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>• Deall Cyfrifoldebau Perchnogion Tir o ran Mynediad i'r Cyhoedd a Chyfleoedd i Gysylltu |

## Rhestr Wirio Cydymffurfio DPP

Mae'r rhestr wirio hon (gyda'r wybodaeth uchod) wedi'i chynllunio i fod yn ganllaw cyflym i'ch helpu i benderfynu a yw'r digwyddiad dysgu allanol yn bodloni safonau a gofynion UA4.

*(Ticiwch bopeth sy'n berthnasol ar gyfer y cynnig cyffredinol)*

- ❑ Gweithgareddau'n berthnasol i un neu fwy **o amcanion yr SLM**:
  - Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn ffordd gynaliadwy
  - Lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddyn nhw
  - Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau
  - Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, gan gynnwys cynnal y Gymraeg a hyrwyddo cysylltu.
- ❑ Canlyniadau dysgu pendant ar gyfer pob sesiwn.
- ❑ Y gallu i brofi'r dysgu (e.e., holi cwestiynau, porthi trafod, astudiaethau achos, asesiad ffurfiol).
- ❑ Prawf eich bod wedi bod yn bresennol, amcanion y dysgu, cysylltiad ag amcanion SLM a hyd y digwyddiad (a chadw'r dystiolaeth ar gyfer ei harchwilio).